

*Anghenion
ychwannegol
mewn
cyd-destun*

Portffolio

ECIE4003

Rhif mfyrwyr:1911890

Elfen 1	3
Poster -	3
Cyfeiriadau -	4
Elfen 2	5
Traethawd -	5
Cyfeiriadau -	7
Elfen 3	8
Archwilio a chrynhai anghenion dysgu ychwanegol disgybl gan ddefnyddio dull cynllunio sy'n canolbwyntio ar yr unigolyn.	8
Elfen 4	10
Cymorth posibl a ddarperir	10

Pryder

"1 ym mhob 6 plentyn rhwng 5 ac 16 oed broblem iechyd meddwl debygol ym mis Gorffennaf 2021"
(YoungMinds, 2021-2023)



1 Pwyntiau Pwysig

- Pwy? - Unrhyw un
- Achosion? - Ystod eang o rhesymau e.e dechrau ysgol/blwyddyn newydd, ffrindiau, gwaith grŵp, arian, "plentyndod rhywun, straen, trawma" (Mind, 2021)
- Pryd? - Unrhyw pryd
- Beth mae'n edrych fel? - Gall plentyn fod yn "ofnus, panig, embaras neu gywilydd." (NHS, 2020)

2 Beth yw anghenion dysgu ychwanegol (ADY)?

Diffynir Cyngor Abertawe (2021) fod person ag anghenion dysgu ychwanegol "os oes ganddo hi/fe anhawster dysgu neu anabledd (boed yn deillio o gyflwr meddygol neu fel arall) sy'n galw am ddarpariaeth ddysgu ychwanegol."

- Gallwn rhannu'r anghenion mewn i 4 maes;
- Cyfathrebu a rhyngweithio
 - Cymdeithasol, emosiynol ac iechyd meddwl
 - Gwybyddiaeth a dysgu
 - Synhwyraidd a/neu gorfforol

Pryder = maes cymdeithasol, emosiynol ac iechyd meddwl

(Wales Government Additional Learning Needs Code for Wales, 2021)

3 Fel gallwn ni profi os oes Anghenion Dysgu Ychwanegol (ADY)?

Prawf 1

A oes gan y plentyn neu'r person ifanc anabledd (a all godi o gyflwr meddygol neu beidio)?

- A yw'r plentyn neu'r person ifanc yn cael mwy o anhawster i ddysgu na'r rhan fwyaf o bobl eraill yr un oed?
- A oes gan y plentyn neu'r person ifanc anabledd (o fewn ystyr Deddf Cydraddoldeb 2010) sy'n atal neu'n rhwystro'r plentyn neu'r person ifanc rhag defnyddio cyfleusterau ar gyfer addysg neu hyfforddiant o fath a ddarperir yn gyffredinol ar gyfer eraill o'r un oedran mewn ysgolion prif ffrwd a gynhelir neu SABau prif ffrwd?

Ydy i'r naill neu'r llall

Nac oes / nac ydy

Prawf 2

A yw'r anhawster dysgu neu anabledd yn golygu bod angen darpariaeth ddysgu ychwanegol (DDdY)?

Ydy i'r naill neu'r llall

Nac oes / nac ydy

Ydy - mae gan y plentyn neu'r person ifanc ADY

Nac ydy - nid oes gan y plentyn neu'r person ifanc ADY

(Cyngor Abertawe, 2021)

4 Arwyddion

- Gweld yn anodd i ganolbwyntio
- Llefain trwy'r amser
- Dim yn cysgu neu'n codi yng nghanol y nos gyda breuddwydion drwg
- Dim yn bwyta'n iawn
- Mynd yn grac neu'n bigog yn gyflym, a bod allan o reolaeth yn ystod ffrwydradau
- Yn poeni'n barhaus neu'n cael meddyliau negyddol
- Teimlo'n llawn straen ac aflonydd, neu defnyddio'r toiled yn aml
- Bod yn 'clingly' drwy'r amser
- Cwyno o boenau yn y stumog a theimlo'n sâl (NHS, 2020)

5 Pwy gallwn ni droi ato?

- Athro/Athrawes dosbarth
- Prif athro/athrawes yr ysgol
- CADY yr ysgol
- Elusennau e.e 'Young Minds', Childline*
- Meddyg teulu
- Ymwelydd Iechyd
- Tim gwasanaethau plant yn eich cyngor lleol (NHS, 2020)



(Sketchifyukraine)

Bwysig Gellir cysylltu â childline yn ddienw os oes gwell gennych

6 Arfer da ac sut mae'n edrych mewn ysgol

Arfer da yw: "setiau o ddulliau a thechnegau sy'n cynhyrchu'r canlyniadau gorau posibl, yn cynyddu effeithlonrwydd ac yn datblygu prosesau strwythuredig" (Indeed Editorial Team, 2022)

Fel mae'n helpu / effaith?

- Cryfhau sgiliau emosiynol disgybl
- Cynyddu gwelliant/datblygiad disgybl
- Gallu fod yn cynwysedig - Berthnasol i'r dosbarth cyfan
- 'Child centred'
- Darparu profiadau gwell i ddisgyblion

*'Child centred' = rhoi'r plentyn yn 1af pan rydym yn gwneud penderfyniadau.

"gall hyn newid eu hagwedd, eu hymddygiad a'u dysgu a'u gwneud partneriaid gweithredol sy'n gweithio gydag oedolion i sicrhau newid" (Sutcliffe, A., & Birney, B., 2015)

O fewn dosbarth/ysgol:

- Llais y disgybl
- Amserlen weledol
- Cyfranogiad rhieni / cymuned
- Ar trip - disgybl yn derbyn y gefnogaeth a'r arweiniad anghenrheidiol arferol
- "bolisi drws agored"
- (Cylchlythyr Ysgol, 2023)
- Canmol disgyblion yn fwy yn lle fod yn beirniadol
- Gwneud amser i ofalu am y plant
- Amddiffyn hawliau plant

7 Delio â phryder

- Blwch beco
- Pecyn ymdawelu - cynnwys gwrthrychau cysurus mae'r plant yn hoffi
- Gwneud ymarfer corff
- Sesiynau ymlacio - ioga, ymarfer anadlu, myfyrio
- Datganiadau positif
- Lliwio
- Defnyddio 'Thermomedr Pryder'
- Siarad â rhywun - ffrind/oedolyn

Cyfeiriadau -

Addy. [Canva] Cyrchwyd ar 2ail o Hydref 2023

Cylchlythyr Ysgol (2023) Cylchlythyr Tymor yr Hydref 2023 Ar gael ar: <https://primarysite-prod-sorted.s3.amazonaws.com/parc-y-tywyn-school/UploadedDocument/9f9f7109-43cd-4249-b3b3-49eaca1eea61/cylchlythyr-tymor-yr-hydref-1-2023-2.pdf> Cyrchwyd ar: 19eg o Fedi 2023

Cyngor Abertawe (2021) ALN - Definition of ALN. Abertawe. Ar gael ar: <https://www.swansea.gov.uk/article/1965/ALN---Definition-of-ALN#:~:text=A%20person%20has%20additional%20learning,calls%20for%20additional%20learning%20provision>. Cyrchwyd ar: 17eg o Fedi 2023

Indeed Editorial Team. (2022). *Best Practices: Definition, Importance and Examples*. Indeed. Ar gael ar: <https://www.indeed.com/career-advice/career-development/what-are-best-practices> Cyrchwyd ar: 29ain o Fedi 2023, <https://www.indeed.com/career-advice/career-development/what-are-best-practices>

Mind (2021) What causes anxiety problems. Ar gael ar: <https://www.mind.org.uk/information-support/types-of-mental-health-problems/anxiety-and-panic-attacks/causes/#:~:text=Difficult%20experiences%20in%20childhood%2C%20adolescence,physical%20or%20emotional%20abuse> Cyrchwyd ar: 17eg o Fedi 2023

NHS (2020) Anxiety disorders in children. NHS Inform. Ar gael ar: <https://www.nhsinform.scot/illnesses-and-conditions/mental-health/anxiety-disorders-in-children> Cyrchwyd ar: 18fed o Fedi 2023

Sketchifyukraine. [Canva] Cyrchwyd ar: 2ail o Hydref 2023

Sutcliffe, A., & Birney, B. (2015). *Person centred planning with children and young people: The Tower Hamlets model*. Ar gael ar: https://www.towerhamlets.gov.uk/Documents/Children-and-families-services/Early-Years/TH_PCP_Model.pdf Cyrchwyd ar: 15fed o Hydref 2023

Wales Government Additional Learning Needs Code for Wales (2021) Ar gael ar: <https://www.gov.wales/sites/default/files/publications/2022-06/220622-the-additional-learning-needs-code-for-wales-2021.pdf> Cyrchwyd ar: 2ail o Hydref 2023

YoungMinds (2021-2023) Mental Health statistics. Ar gael ar: <https://www.youngminds.org.uk/about-us/media-centre/mental-health-statistics/> Cyrchwyd ar: 28ain o Fedi 2023

Elfen 2

Traethawd -

Yr agwedd allweddol drafodir yn y traethawd hwn yw'r sbectrwm eang a chymhleth o anghenion ychwanegol. Os oes person ag "anawsterau dysgu neu anabledd (boed yn deillio o gyflwr meddygol neu arall) sy'n galw am ddarpariaeth dysgu ychwanegol" yw anghenion dysgu ychwanegol (Cyngor Abertawe, 2021). Gall hyn golygu fod disgybl yn derbyn cymorth ychwanegol ym maes penodol wrth dderbyn gwersi 'dal i fyny'. Yn yr un modd, nodir Dewis Cymru (2023) gall person fod ag "anghenion dysgu, corfforol neu synhwyrdd sy'n ei gwneud yn anoddach iddynt ddysgu na'r rhan fwyaf o blant o'r un oedran". Mae disgyblion yn fwy tebygol o fod ag ADY os yw'n perthyn i grŵp agored i niwed, gan gynnwys grwpiau lleiafrifoedd ethnig, ffoaduriaid, plant sy'n derbyn gofal plant neu theuluoedd mewn amgylchiadau anodd.

Yn debyg, anghenion addysgol arbennig yw pryd mae plentyn neu berson ifanc â "anhawster dysgu sy'n galw am ddarpariaeth addysgol arbennig ar eu cyfer" (Special educational needs code of practice for Wales, 2004). Gyda'r newidiadau gan llywodraeth Cymru drwy gyflwyno'r rhaglen trawsnewid anghenion dysgu ychwanegol, maent yn nodi bod ystyr AAA ac ADY yr un fath sy'n ddiddorol oherwydd awgrymir debygolrwydd bydd plant âg AAA yn cael ADY. Fodd bynnag, ni fydd gan blentyn sydd wedi cael AAA yn ADY oherwydd bod ei anghenion wedi newid ac nid oes angen cymorth ychwanegol fwyach i'w helpu i ddysgu. Mae'n hollbwysig cofio, dywedodd Llywodraeth Cymru gallai hyn ddigwydd yn achlysurol, sy'n awgrymu ei bod yn bosibl i rywun ag AAA fod ag ADY o hyd. Efallai y bydd angen cymorth ychwanegol arnynt o hyd, ond gellir ei leihau oherwydd ei fod yn gallu rheoli ei ADY ei hun. Fel esiampl, os yw disgybl ag iechyd meddwl gwael ac o bosib yn dioddef o bryder, yna ni fyddai'r gefnogaeth AAA megis cwnsela mor effeithiol, na llwyddiannus, ar ôl i'r disgybl dysgu sgiliau a ffyrdd o gefnogi'i hun ac ymdrin â'i symptomau a theimladau eu hunain. Yn y bôn nid oes gan bob disgybl a myfyriwr anabl anawsterau dysgu a dydy disgyblion a myfyrwyr ag anawsterau dysgu neu AAA yn anabl.

Noda'r fodel Cymdeithasol Anabledd bod pobl yn anabl o ganlyniad i "rhwystrau o fewn cymdeithas, nid oherwydd eu nam neu wahaniaeth" (Scope, 2022) Gall y rhwystrau yma fod yn gorfforol, fel dim toiledau anabl ar gael neu oherwydd agweddau pobl tuag at wahaniaethau fel defnyddwyr cadair olwyn yn methu cymryd rhan. Pan gaiff y rhwystrau hyn eu dileu, gall pobl anabl fod yn annibynnol a chyfartal, gyda dewis a rheolaeth dros eu bywydau eu hunain sy'n bwynt allweddol a ddangosir gan UNCRC oherwydd bod gan blant yr hawl i fywyd, i dyfu a chyrraedd eu llawn potensial. Y prif bwynt yw bod y model cymdeithasol wedi'i ddatblygu gan bobl anabl eu hunain oherwydd nad oedd y model meddygol yn egluro eu profiad personol o anabledd nac yn helpu i ddatblygu ffyrdd mwy cynhwysol o fyw. Mae'r model meddygol yn dweud "mae pobl yn anabl oherwydd eu namau neu wahaniaethau" (Scope, 2022) a ddylai gael eu newid gan driniaethau meddygol a thriniaethau eraill nid trwy ddatblygu'r gymdeithas neu'r amgylchoedd.

I ymhelaethu, caiff y fodel gymdeithasol ei gyfleu mewn ysgolion mewn nifer o ffyrdd. Datblygir Llywodraeth Cymru'r rhaglen trawsnewid system anghenion dysgu ychwanegol, sydd yn drawsnewid y systemau gwahanol ar gael i bobl ag anghenion addysgol arbennig mewn ysgolion ac anawsterau a/neu anableddau dysgu mewn addysg bellach, wrth sicrhau "system unedig i gefnogi dysgwyr o 0 i 25 oed" (Llywodraeth Cymru, 2017). Nôd y llywodraeth trwy gyflwyno'r rhaglen yw i "drawsnewid disgwyliadau, profiadau a chanlyniadau i blant a phobl ifanc ag anghenion dysgu ychwanegol" (Llywodraeth Cymru, 2017). Mae hyn yn hollol bwysig er mwyn sicrhau fod y newid o'r model meddygol i'r model cymdeithasol o anabledd yn cael ei gwthio a'i chyflawni o amgylch y byd gan bawb yn enwedig ysgolion a meysydd addysg. Mae llawer o strategaethau a gynigir yn briodol a dylent fod yn rhan annatod o unrhyw wers os yw plant ag AAA yn bresennol neu beidio, amlyga hyn fel elfen hanfodol o addysgeg. Unwaith eto, arwyddocâd cynwysoldeb yn hytrach nag eithrio unigolion.

Gallwn hefyd defnyddio dulliau gweithredu sy'n seiliedig ar nodau addysgol cyffredin ar gyfer pob plentyn beth bynnag fo'u gallu neu anableddau sy'n arwain at annibyniaeth, mwynhad a dealltwriaeth. Arfer da o fewn ysgol a'r gymdeithas yw dull gwybyddol ymddygiadol neu therapi ymddygiad gwybyddol. Golygir hyn fod pwyslais ar y defnydd o egwyddorion atgyfnerthu gall ei ddefnyddio i newid meddyliau neu wybyddiaeth sy'n gysylltiedig ag ymddygiadau 'ADHD.' Fodd bynnag, gall y dull yma ei ddefnyddio ar draws sefydliad gan ei fod yn dysgu sgiliau ymdopi i ddelio â gwahanol broblemau. Mae'n canolbwyntio ar sut mae eich meddyliau, eich credoau a'ch agweddau yn effeithio ar eich teimladau a'ch gweithredoedd (Mind, 2021). Er mwyn cynnwys myfyrwyr ADY mae angen system addysg hyblyg. Rhaid i athrawon a staff cynorthwyl wybod am ddysgu ac addysgu ac am yr amrywiaeth sy'n bodoli mewn addysgu. Os yw addysgwyr yn addysgu mewn ffordd sy'n sicrhau amrywiaeth, yna bydd mwy o blant ag AAA gwahanol yn gallu ymdopi mewn lleoliadau prif ffrwd i ddod yn aelodau llawn o'r grŵp. Bydd hyn hefyd o fudd i fyfyrwyr aflonyddgar a'r rhai ag ADHD, dyslecsia ac ati. O bwysigrwydd gellir dysgu a'i addasu gyda phrofiad.

Yn wir, mae'r gefnogaeth sydd ar gael yng Nghymru yn llawer mwy dwys na Lloegr. Yn Lloegr, addaswyd y Deddf Plant a Theuluoedd 2014 y system AAA a chyflwyno cynlluniau statudol newydd sef Cynlluniau Addysg, Iechyd a Gofal (Llywodraeth Cymru, 2022). Fodd bynnag, ond ar gyfer dysgwyr ag anghenion difrifol a chymhleth y mae'r rhain. Yng Nghymru, mae'r system ADY yn ymestyn hawliau i gynlluniau statudol i bob dysgwr ag ADY, nid yw'n gyfyngedig i'r rhai sydd â'r anghenion mwyaf difrifol neu gymhleth yn unig. Bydd angen cymorth arbennig ar ddisgyblion ag ADY difrifol a dyma le mae rôl i ysgolion arbenigol. Dylid ystyried ysgolion arbenigol fel canolfannau rhagoriaeth, arloesi mewn ffyrdd newydd o weithio gyda'r plant hyn ac ymdrin â'r mwyaf eithafol. Gall ysgolion a llywodraethau ond barhau i feithrin gallu athrawon ac ysgolion i addysgu disgyblion ag ystod amrywiol o AAA yn allweddol i wella cyflawniad y disgyblion hyn. Sydd yn ôl UNCRC (2022) mae gan yr anabl yr hawl i "ofal a chefnogaeth arbennig fel gallent fyw bywyd llawn ac annibynnol." Fel gydag unrhyw newidiadau, gwelwn effeithiau 'cadarnhaol' a 'negyddol' o fewn ysgolion a disgyblion. Serch hynny, nid oes modd newid popeth yn llwyddiannus, ond credaf os fod fwy o effeithiau cadarnhaol yna mae'n llwyddiant. Ar ddiwedd y dydd wrth galon pob trafodaeth mae'r disgyblion, gan gynnwys y rhai ag anghenion arbennig.

Cyfeiriadau -

Cyngor Abertawe (2021) ALN - Definition of ALN. Abertawe. Ar gael ar:

<https://www.swansea.gov.uk/article/1965/ALN---Definition-of-ALN#:~:text=A%20person%20has%20additional%20learning,calls%20for%20additional%20learning%20provision>. Cyrchwyd ar: 17eg o Fedi 2023

Dewis Wales (2023) Additional Learning Needs (ALN). Ar gael ar:

<https://www.dewis.wales/additional-learning-needs-cyp#:~:text=The%20term%20'additional%20learning%20needs,children%20of%20the%20same%20age>. Cyrchwyd ar: 14eg o Hydref 2023

Special educational needs code of practice for Wales. (2004). Ar gael ar:

<https://www.gov.wales/sites/default/files/publications/2018-03/special-educational-needs-code-of-practice-for-wales.pdf> Cyrchwyd ar: 18fed o Hydref 2023

Llywodraeth Cymru. (2017). Rhaglen trawsnewid system anghenion dysgu ychwanegol (ADY) Ar

gael ar: <https://www.llyw.cymru/sites/default/files/publications/2018-03/rhaglen-trawsnewid-system-anghenion-dysgu-ychwanegol-ady.pdf> Cyrchwyd ar: 14eg o Hydref 2023

Llywodraeth Cymru (2022). The additional learning needs transformation programme:

frequently asked questions. GOV.WALES. <https://www.gov.wales/additional-learning-needs-transformation-programme-frequently-asked-questions->

[html#:~:text=The%20meaning%20of%20SEN%20and,support%20to%20help%20them%20learn](https://www.gov.wales/additional-learning-needs-transformation-programme-frequently-asked-questions-#:~:text=The%20meaning%20of%20SEN%20and,support%20to%20help%20them%20learn).

Cyrchwyd ar: 19fed o Hydref 2023

Mind. (2021) *What is cognitive behavioural therapy (CBT)?* Ar gael ar:

<https://www.mind.org.uk/information-support/drugs-and-treatments/talking-therapy-and-counselling/cognitive-behavioural-therapy-cbt/> Cyrchwyd ar: 21ain o Hydref 2023

Scope (2022) The Social Model of Disability. Ar gael ar: <https://www.scope.org.uk/about-us/social-model-of-disability/>

Cyrchwyd ar: 21ain o Hydref 2023

UNCRC symbols resource. (2022). Children's Commissioner for Wales. Ar gael ar:

<https://www.childcomwales.org.uk/uncrc-childrens-rights/uncrc-symbols-resource/> Cyrchwyd: 21ain o Hydref 2023

Welsh government (2023). The additional learning needs transformation programme: frequently

asked questions. Ar gael ar: <https://www.gov.wales/additional-learning-needs-transformation-programme-frequently-asked-questions->

[html#:~:text=The%20meaning%20of%20SEN%20and,support%20to%20help%20them%20learn](https://www.gov.wales/additional-learning-needs-transformation-programme-frequently-asked-questions-#:~:text=The%20meaning%20of%20SEN%20and,support%20to%20help%20them%20learn)

Cyrchwyd ar: 14eg o Hydref 2023

Elfen 3

Archwilio a chrynhoi anghenion dysgu ychwanegol disgybl gan ddefnyddio dull cynllunio sy'n canolbwyntio ar yr unigolyn.

Adran 1C: Proffil (Amdanaf i)

Beth sy'n bwysig i'r dysgwr

- Fy nheulu (Mam a Dad)
- Y teganau rwy'n hoffi chwarae ag a'r gweithgareddau rwy'n hoff o wneud; Rubanau a sgarffiau, teganau 'pop up', teganau synhwyraidd, offerynnau cerdd, rhedeg, chwarae gyda phêl tu allan, cwrso swigod.
- Annibyniaeth i archwilio / 'Personol space'
- I gael fy amgylchynu gan bobl sy'n fy neall i a'r hyn rydw i eisiau
- I gael fy amgylchynu gan bethau rwy'n eu hoffi sy'n sgleiniog / 'shimmer' / sy'n llewyrchu e.e. patrymau holograffig, golau
- I allu cael mynediad i deganau yn rhydd

Beth sy'n bwysig ar gyfer y dysgwr

- I rywun ddangos i mi ble mae fy nheganau yn cael eu cadw fel fy mod yn gallu cael mynediad iddynt yn rhydd
- Dilyn fi pan fyddaf yn ceisio cymryd llaw rhywun i ddangos i chi beth rwyf eisiau a thynnu gwrthrych pan fyddaf yn ei wthio i ffwrdd gan ei fod yn golygu nad wyf am ei gael.
- Trwy ddangos gwrthrychau go iawn i mi fel fy 'nappies' fel fy mod i'n gwybod ei bod hi'n bryd i mi newid. Yn yr un modd trwy ddangos fy mag i mi fel fy mod yn gwybod ei bod yn amser gatref.
- Arwain y pethau rwyf am eu gwneud. Arhoswch i mi ymgysylltu â chi fel edrych arnoch chi, gwenu, cyswllt llygad, gwneud sŵn, dal eich llaw i'ch arwain.
- Rwyf wrth fy modd yn chwarae y tu mewn a'r tu allan ond yn ei chael hi'n anodd trosglwyddo o'r tu allan i'r tu mewn. Gall oedolion fy helpu trwy dynnu fy sylw a chaniatáu i mi ddod â gwrthrych o'r tu allan i'r tu mewn fel pêl.
- Dydw i ddim yn hoffi cael llawer o bobl o'm cwmpas, felly mae'n bwysig mai dim ond un person sy'n rhyngweithio â mi ar y tro.
- Yn ystod amser ffrwyth rwy'n hoffi eistedd ar fy mhen fy hun ar y carped a byddaf yn dod atoch os hoffwn mwy o'r hyn rwyf eisiau.
- Nid oes gennyf synnwyr da o berygl ac rwy'n tueddu i ddringo. Mae'n bwysig bod oedolyn yn cadw llygad barcud arna i fel nad ydw i'n cwmpo.

Beth sydd yn gweithio ac y dylid adeiladu arno

- Mae pethau synhwyrdd yn yr ystafell ddosbarth yn helpu i reoli teimladau
- Mae mynediad rhwydd rhwng yr ystafell ddosbarth a'r ardal awyr agored yn helpu i drosglwyddo o un i'r llall

Beth sydd ddim yn gweithio ac sydd angen ei newid

- Mae Plentyn A yn mynd yn rhwystredig pan ddaw'n nes at amser cartref gan fod tua 15 munud rhwng cael cotiau a bagiau a cherdded allan y drws
- Gyda bron i 40 o blant yn yr ystafell ddosbarth ar un adeg mae bron yn amhosibl cael lle eu hunain i archwilio

Adran 2A: Disgrifiad o anghenion dysgu ychwanegol (ADY) y plentyn neu'r person ifanc

Er bod dim diagnosis gyda Phlentyn A gan ei fod mor ifanc, mae yna nodweddion yn ymddangos o anhwylder ar y sbectrwm awtistig (ASD).

Cyfathrebu a Rhyngweithio

Mae'r adran Therapi Iaith a Lleferydd (SaLT) yn hysbys i blentyn A, ond nid yw wedi dechrau cael cymorth eto. Mae Plentyn A yn ddi-eiriau, ond bydd yn dal eich llaw i ddangos i chi beth maen nhw ei eisiau ac yn eich pwyntio neu'n eich gwrthio i ffwrdd os nad ydyn nhw eisiau eich sylw neu rywbeth rydych chi'n ei ddangos. Mae angen iddynt allu datblygu eu hiaith/araith fynegiannol gyda geiriau syml a dealltwriaeth sydd angen cyfathrebu effeithiol gyda'i gyfoedion ac eraill.

Datblygiad Ymddygiad, Emosiynol a Chymdeithasol

Mae Plentyn A yn ei weld yn anodd rheoleiddio ei ymddygiad/ymatebion emosiynol ar adegau gan ei fod yn mynd yn rhwystredig yn hawdd sy'n ddealladwy gan ei fod yn deillio o ddiffyg cyfathrebu effeithiol, ac yn tueddu i gnoi. Caiff cardiau 'prompt' ei defnyddio hefyd i helpu.

Gwybyddiaeth a Dysgu

Mae Plentyn A yn mwynhau archwilio yn ei amser a'i hardal ei hun. Maent hefyd yn cael anhawster canolbwyntio, nad yw'n para mwy na 5 munud. O ganlyniad rydym fethu asesu o'n llawn achos diffyg canolbwyntio.

I grynhoi, prif angen dysgu ychwanegol Plentyn A yw cyfathrebu a rhyngweithio.

Elfen 4

Cymorth posibl a ddarperir

Adran 2B1: Disgrifiad a chyflwyniad darpariaeth dysgu ychwanegol y plentyn neu berson ifanc				
2B1.1) Canlyniad bwriadedig: Dylai'r canlyniad bod yn CAMPUS (Cytundebig, Amserol, Mesuradwy, Penodol, Uchelgeisiol, Synhwyrol)		Bydd plentyn A yn gallu cyfathrebu yn effeithiol gyda staff a chyfoedion fel bod yn gallu datblygu agweddau cymdeithasol o'i fywyd ysgol trwy adnabod geiriau syml sydd yn ei allu i helpu trawsnewid trwy drefn y dydd erbyn diwedd y tymor / mis Rhagfyr.		
2B1.2) DDY i'w darparu: <i>Dylai hyn gynnwys pa mor aml (dyddiol, wythnosol); y math o gefnogaeth; sy'n darparu'r cymorth. Dylai'r disgrifiad o'r Ddarpariaeth Dysgu Ychwanegol (DDY) fod yn glir iawn ac yn fanwl gywir, yna gellid rhannu'r uchod yn nodau a thargedau llai.</i>	2B1.3) A ddylid darparu'r DDY yn Gymraeg?	2B1.4) Sefydliad/Gwasanaeth i ddarparu'r DDY, (e.e GIG, Gwasanaeth Cynhwysiant, Athro arbenigol, ac ati):	2B1.5) Dyddiad cychwyn:	2B1.6) Dyddiad gorffen/adolygu:
Cymorth Cynorthwyydd dysgu lefel 1: Bydd plentyn A yn cael mynediad i'w raglen unigol, a ddarperir gan y Therapydd Lleferydd ac iaith i ddatblygu eu hiaith fynegiannol a'u lleferydd. Fydd sesiynau yn cael ei darparu'n 3 gwaith yr wythnos gan gynorthwyydd dysgu lefel 1 am 10 munud. Bydd hyn yn canolbwyntio ar ei tharged fel y gosodwyd gan SLT o ddechrau datblygu geirfa syml.	Na	SALT Byddai tiwtora blaenllaw wedi digwydd hefyd er mwyn cadw cysondeb	Medi 2023	Rhagfyr 2023
2B1.7) Rhesymeg ar gyfer yr DDY a restrir uchod: <i>Os oes gwahaniaeth barn dylid ei gofnodi yma e.e. gwahaniaeth barn rhwng y plentyn, rhiant y plentyn neu'r person ifanc a gweithwyr proffesiynol. Gallai'r adran esbonio sut mae gwahanol farnau wedi'u hystyried cyn dod i benderfyniad penodol.</i>	Mae'r plentyn o dan 16 oed felly does dim angen caniatâd y plentyn mae'r rhieni yn siarad ar ei rhan. Nid yw plentyn A yn cyfathrebu gan ddefnyddio geiriau, felly gallwn ddechrau adeiladu geirfa syml gyda phwyslais i ailadrodd. Wedi derbyn cyngor SALT i greu'r rhaglen a chyfathrebu efo rhieni'r plentyn. Rydym wedi cytuno gyda'r rhieni ein bod yn defnyddio iaith y gartref (Saesneg) i sicrhau ei fod yn ailadroddus ac yn aml ddefnydd er mwyn fwy o siawns o lwyddiant.			

Adran 2B2: Disgrifiad a chyflwyniad darpariaeth dysgu ychwanegol y plentyn neu berson ifanc				
2B2.1) Canlyniad bwriadedig: Dylai'r canlyniad bod yn CAMPUS (Cytundebig, Amserol, Mesuradwy, Penodol, Uchelgeisiol, Synhwyrol)	Erbyn hanner tymor cyntaf / mis Hydref, bydd plentyn A yn gallu chwarae o amgylch eu cyd-ddisgyblion er mwyn datblygu sgiliau cymdeithasol.			
2B2.2) DDY i'w darparu: <i>Dylai hyn gynnwys pa mor aml (dyddiol, wythnosol); y math o gefnogaeth; sy'n darparu'r cymorth. Dylai'r disgrifiad o'r Ddarpariaeth Dysgu Ychwanegol (DDY) fod yn glir iawn ac yn fanwl gywir, yna gellid rhannu'r uchod yn nodau a thargedau llai.</i>	2B2.3) A ddylid darparu'r DDY yn gymraeg?	2B2.4) Sefydliad/Gwasanaeth i ddarparu'r DDY, (e.e GIG, Gwasanaeth Cynhwysiant, Athro arbenigol, ac ati):	2B2.5) Dyddiad cychwyn:	2B2.6) Dyddiad gorffen/adolygu:
Bydd plentyn A yn derbyn ymyrraeth ChATT yn y meysydd – chwarae, cyfathrebu cymdeithasol a sylw a gwrando, er mwyn dod yn gyfarwydd ag chwarae ochr yn ochr â phlant eraill. Bydd y sesiynau yn gyfanswm o 4 awr yr wythnos o gymorth cynorthwyydd dosbarth. Bydd gweithgareddau'n cael eu modelu a'u harwain gan oedolion. Bydd angen goruchwyliaeth oherwydd eu bregus rwydd cymdeithasol. Bydd y cynorthwyydd addysgu yn rhoi canmolïaeth a sicrwydd ar wahân pan fydd plentyn A yn gwneud dewisiadau cadarnhaol.	Ie / dwyieithog		Medi 2023	Hydref 2023
2B2.7) Rhesymeg ar gyfer yr DDY a restrir uchod: <i>Os oes gwahaniaeth barn dylid ei gofnodi yma e.e. gwahaniaeth barn rhwng y plentyn, rhiant y plentyn neu'r person ifanc a gweithwyr proffesiynol. Gallai'r adran esbonio sut mae gwahanol farnau wedi'u hystyried cyn dod i benderfyniad penodol.</i>	Mae'r plentyn o dan 16 oed felly does dim angen caniatâd y plentyn mae'r rhieni yn siarad ar ei rhan. Mae Plentyn A yn agored i niwed mewn sefyllfaoedd cymdeithasol, ac felly mae angen addysgu sgiliau cyfathrebu cymdeithasol perthnasol yn benodol i'w helpu i ryngweithio'n gadarnhaol â'i gyfoedion i wneud a chadw cyfeillgarwch dwyochrog cadarnhaol. Gan fod plant arall yn cymryd rhan caiff ei ddarparu yn ddwyieithog gan fod y plant mewn ysgol Gymraeg.			

Adran 2B3: Disgrifiad a chyflwyniad darpariaeth dysgu ychwanegol y plentyn neu berson ifanc

2B3.1) Canlyniad bwriadedig: Dylai'r canlyniad bod yn CAMPUS (Cytundebig, Amserol, Mesuradwy, Penodol, Uchelgeisiol, Synhwyrdd)	Bydd plentyn A yn gallu rheoli ei emosiynau yn well gan ddatblygu fel unigolyn i allu cymryd rhan yn llwyddiannus o fewn ei diwrnod ysgol.				
2B3.2) DDY i'w darparu: <i>Dylai hyn gynnwys pa mor aml (dyddiol, wythnosol); y math o gefnogaeth; sy'n darparu'r cymorth. Dylai'r disgrifiad o'r Ddarpariaeth Dysgu Ychwanegol (DDY) fod yn glir iawn ac yn fanwl gywir, yna gellid rhannu'r uchod yn nodau a thargedau llai.</i>	2B3.3) A ddylid darparu'r DDY yn gymraeg?	2B3.4) Sefydliad/Gwasanaeth i ddarparu'r DDY, (e.e GIG, Gwasanaeth Cynhwysiant, Athro arbenigol, ac ati):	2B3.5) Dyddiad cychwyn:	2B3.6) Dyddiad gorffen/adolygu:	
Cefnogaeth gan staff dosbarth yn yr ystafell synhwyrdd. Ar ddechrau pob sesiwn bydd plentyn A yn cael amser yn yr ystafell synhwyrdd i reoli emosiynau a thawelu Plentyn A cyn mynd i mewn i'r dosbarth. Gallai hwn hefyd fod ar gael trwy gydol eu sesiwn os bydd unrhyw sbardunau yn achosi niwed i'r unigolyn neu'n achosi rhwystredigaeth sy'n arwain at beryglon i'r plentyn ei hun ac eraill. Ar ôl yr hanner tymor gobeithir lleihau'r amser er mwyn rhyddhau aelod o staff i'r dosbarth a hefyd caniatáu i Blentyn A chynyddu ei amser yn y dosbarth a chaniatáu cyfleoedd pellach o gymdeithasu a datblygu o gwmpas eu cyd-ddisgyblion.	Na		Medi 2023	Hydref 2023	
2B3.7) Rhesymeg ar gyfer yr DDY a restrir uchod: <i>Os oes gwahaniaeth barn dylid ei gofnodi yma e.e. gwahaniaeth barn rhwng y plentyn, rhiant y plentyn neu'r person ifanc a gweithwyr proffesiynol. Gallai'r adran esbonio sut mae gwahanol farnau wedi'u hystyried cyn dod i benderfyniad penodol.</i>	Mae pob aelod o staff sy'n ymwneud â'r dosbarth plant hwn wedi cytuno i gynnal sesiwn o gefnogaeth yr un, gan y bydd hyn yn helpu plentyn A gyda'i sgiliau cymdeithasol a dod yn gyfforddus gydag amrywiaeth o bobl. Cytunwyd ar hyn gyda Chydlynedd ADY yr ysgol gan y gwelwyd bod pethau synhwyrdd wedi helpu i dawelu plentyn A.				